# Dewis Cartref Gofal

## Cyflwyniad

Mae gadael eich cartref a symud i fyw i gartref gofal yn gam mawr i unrhyw un. Fel unrhyw benderfyniad pwysig, ddylech chi ddim ei wneud ar frys.

Bydd ein staff yn trafod yr opsiynau eraill sydd ar gael ar eich cyfer. Mae'n bosib y cewch aros yn eich cartref gyda chymorth neu ystyried symud i lety â chymorth, yn dibynnu ar asesiad llawn o'ch anghenion a'r risgiau i'ch annibyniaeth. Efallai y byddwch yn penderfynu mai cartref gofal neu gartref preswyl yw'r ffordd orau o ddiwallu eich anghenion gofal.

## I'ch cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch eich dyfodol

Byddwn yn gofyn i chi ynglŷn â'ch anghenion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwneud yn siŵr bod y lefel cywir o gymorth yn cael ei ddarparu gan y mudiad cywir. Weithiau, y GIG fydd yn medru darparu'r gofal gorau ar eich cyfer, er enghraifft, os oes angen gofal nyrsio 24 awr arnoch.

Mae'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol yn amodol ar ein meini prawf cymhwyster. Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein ffeithlen ***Meini Prawf Cymhwyster: Cael y Gwasanaethau Sydd Angen Arnoch.***

## Dewis Cartref Gofal

Eich penderfyniad chi yn unig yw hyn, felly mae'n bwysig eich bod yn holi gymaint o gwestiynau â phosib cyn gwneud eich penderfyniad. Efallai y bydd rhai cartrefi yn medru cynnig arhosiad byr arbrofol i'ch helpu i benderfynu.

Rhydd hyn y cyfle i chi weld sut yr ydych yn ymgartrefu mewn cartref gofal cyn i chi wneud penderfyniad pendant ynglŷn â'ch dyfodol. Mae'n golygu hefyd, os nad ydych chi'n hoff iawn o'ch dewis cyntaf, eich bod yn gallu trosglwyddo I gartref gwahanol.

Mae'n bwysig eich bod yn dewis cartref gofal fydd yn diwallu'ch anghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus yn byw yno nawr ac yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw defnyddiol ***Meddwl am gartref gofal? Arweiniad ar yr hyn y bydd angen i chi ei wybod.***

## Gwahanol fathau o gartref

Mae'r holl gartrefi gofal yn cynnig gofal personol i bobl sydd ddim yn medru byw yn eu cartrefi bellach, hyd yn oed â chymorth.

Mae pob unigolyn yn unigryw a bydd ganddynt anghenion sydd yn bersonol iddynt hwy; fe allai'r rhain gynnwys mynd i'r gwely a chodi, cymorth i gael bath, gwisgo neu fynd i'r tŷ bach a/neu gymorth gyda phrydau bwyd. Dylai cartref gofal hefyd rhoi ymdeimlad o ddiogelwch, cwmnïaeth ac amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol.

Ni ddylai symud i gartref gofal gyfyngu'r hobïau a'r diddordebau yr ydych yn eu mwynhau ar hyn o bryd. Bydd gan y mwyafrif o gartrefi fanylion y gweithgareddau a gynhelir yno'n gyson ac ymweliadau/teithiau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae rhai cartrefi gofal yn cynnig gofal nyrsio yn ogystal â gofal personol; rhaid bod staff nyrsio cymwysedig ar ddyletswydd ganddynt bob amser. Nid oes gan gartrefi eraill nyrsys ond mae cynorthwywyr gofal cymwysedig ganddynt ar ddyletswydd bob amser.

Bydd asesiad eich Rheolwr Gofal yn pennu eich anghenion presennol a'ch anghenion yn y dyfodol, a bydd yn eich helpu i weithio allan beth yn union sydd yn addas ar eich cyfer chi. Mae'n bwysig ystyried eich anghenion yn y dyfodol ar yr adeg hon; pe na fyddech yn mynd i gartref sydd yn cynnig gofal nyrsio 24 awr, byddai rhaid i chi symud eto petai'ch anghenion yn cynnwys gofal nyrsio.

Cofiwch, fe all fod rhestri aros mewn rhai cartrefi gofal. Os oes rhaid i chi symud i gartref gofal ar frys, neu os ydych yn glaf yn yr ysbyty, efallai y dylech ystyried opsiynau eraill fel symud i gartref arall dros dro.

Mae rhestr o gartrefi gofal cofrestredig ar gael gan ein hadran gofal cymdeithasol a thai.

## Talu am eich gofal

Unwaith y cytunir mai lleoliad gofal cartref yw'r ffordd orau o fodloni'ch gofynion, gofynnir i chi gwblhau ffurflen **Datgan eich Amgylchiadau Ariannol.**

Bydd eich Rheolwr Gofal yn medru esbonio hyn yn well i chi. Mae gwybodaeth ariannol hefyd ar gael yn y ffeithlen) **Talu am Ofal Preswyl.**

## Sut y mae'r Cyngor yn monitro cartrefi gofal

Nid yw Cyngor Torfaen yn gweithredu ei gartrefi gofal ei hun. Serch hynny, mae gennym gontractau gyda chartrefi sy'n dymuno cael eu cynnwys ar ein rhestr gofrestredig o ddarparwyr cartrefi gofal.

Ein rôl yw:

- Achredu darparwyr newydd drwy broses cymeradwyo
- Ymateb i adborth ynghylch darparwyr, gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r Rheolwr Gofal
- Sicrhau bod gofynion y contract yn cael eu bodloni
- Gweithio gydag asiantaethau eraill, fel y Bwrdd Iechyd Lleol ac yr Arolygaeth Gwasanaethau Gofal a Cymdeithasol Cymru (AGGCC) er mwyn canfod a delio ag iechyd gwael
- Delio â chwynion Torfaen

Yn ogystal â monitro'r gofal y maent yn ei ddarparu, rydym yn annog cartrefi gofal i wella'u gwasanaethau'n barhaus fel nad oes risg i bobl fregus.

Os gwnewch chi ddewis cartref gofal y tu allan i Dorfaen, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r AGGCC a chynghorau eraill yng Nghymru (a Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn ôl y gofyn) fel bod gan Reolwyr Gofal digon o wybodaeth i'ch cefnogi yn eich dewis ac i wneud y trefniadau angenrheidiol.

## Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae'r AGGCC yn sicrhau bod cartrefi gofal yng Nghymru yn bodloni safonau penodol. Mae ei ddyletswyddau yn cynnwys:

- Penderfynu ar bwy sy'n medru darparu gwasanaethau
- Arolygu gwasanaethau
- Sicrhau bod safonau rheoliadau cenedlaethol yn cael eu bodloni
- Delio â chwynion

Rhaid i gartrefi gofal fodloni safonau gofynnol cenedlaethol fel y nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae'r safonau'n nodi anghenion ar gyfer pa gyfleusterau sydd raid eu cynnig ymhob cartref gofal, yn ogystal â'r hyfforddiant sydd angen ar staff i sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gael. Mae'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn disgrifio'r hyn y dylech ei ddisgwyl gan eich cartref gofal. Maent yn cynnwys materion fel:

- Dewis o wasanaeth
- Cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol
- Ansawdd bywyd
- Ansawdd gofal a thriniaeth
- Staffio
- Rheoli
- Pryderon, cwynion ac amddiffyn
- Yr amgylchedd ffisegol

## Os nad ydych yn hapus gyda'ch cartref gofal

Mae'n siŵr o gymryd amser i chi addasu i amgylchedd, pobl ac arferion newydd. Bydd eich Rheolwr Gofal yn hapus I siarad â chi ynglŷn ag unrhyw bryderon, gan wneud ei gorau i'w datrys.

Mae gan holl gartrefi preswyl a nyrsio, weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, mae'n well trafod unrhyw broblemau gyda rheolwr y cartref i weld a oes modd eu datrys yn anffurfiol. Os nad oes modd datrys eich pryderon o gwbl byddwn yn eich cynorthwyo i ddewis lleoliad arall.

## Sut i gwyno

Os, ar ôl trafodaeth gyda rheolwr y cartref, yr ydych dal I deimlo'n anfodlon, mae gennych hawl i gyflwyno'ch cwyn i'r Cyngor. Am ragor o wybodaeth, gweler ein taflen ***Cwynion: Sut i Gael Eich Clywed*****.**

Ar y llaw arall, efallai hoffech gysylltu a'n Swyddog Cwynion ar 01633 648511.

## Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help, cysylltwch â ni.

**Ffôn:** 01495 762200

**E-bost**: socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad**:
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

*Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni er mwyn trefnu hyn.*